

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Gweithdrefn Argyfwng

Fersiwn 1.0 Awst 2018

Am y polisi hwn

Efallai y bydd y Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i holl Unedau Busnes y Cyngor Sir, Ysgolion a chyfleusterau eraill ac y gellir ei ddefnyddio'n ategol i gyngor arall.

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i reolwyr a staff ar drefniadau ar gyfer rhwystro neu leihau niwed o Gweithdrefn Argyfwng.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi	
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Awst 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Medi 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt: 01248 752820

Health&Safety@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

- 1.0 Rhagarweiniad
- 2.0 Diffiniad
- 3.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau
- 4.0 Camau Ataliol yn y Lle Gwaith

1.0 Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod y gall argyfyngau yn y lle gwaith gael effaith ar bobl yn gorfforol ac yn seicolegol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu cael gwared ar unrhyw risgiau sy'n codi o'r gwaith neu eu gostwng i'r eithaf. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod, er gwaethaf y mesurau hyn, na ellir cymryd yn ganiataol na fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi.

Er nad oes modd rhagweld digwyddiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn gweithredu rhai gweithdrefnau argyfwng os bydd digwyddiad o'r fath, a hynny er mwyn sicrhau y cyfyngir ar unrhyw anafiadau neu ddifrod i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Mae'r weithdrefn hon yn sicrhau:

- Cynnal system hunanreoli i sicrhau bod ymatebion i argyfyngau yn cael eu cydgysylltu a'u rheoli;
- Sefydlu trefniadau systematig a rhoi prawf arnynt i sicrhau ymateb cyflym, priodol a chynhwysfawr yn ystod yr argyfwng;
- Bod y system adfer mewn argyfwng yn cwrdd ag anghenion y rheini y mae'r digwyddiad wedi cael effaith arnynt ac yn sicrhau y bydd modd dychwelyd yn brydlon i waith arferol;
- Darparu cymorth a hyfforddiant priodol i'r holl weithwyr sy'n delio gydag argyfyngau gan gynnwys digwyddiadau critigol;
- Adrodd yn gynhwysfawr ac yn briodol ar weithdrefnau adolygu.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ceisio rhoi gwybodaeth a hyfforddiant, cyn amled ag sydd angen gwneud hynny, i'r holl weithwyr (ac i bobl eraill fel contractwyr ac ymwelwyr) fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o'r materion hyn. Bydd y gweithwyr perthnasol yn cael hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer argyfyngau fel tân, bygythiad bom, derbyn pecynnau amheus, nwy yn gollwng, llifogydd ac ati.

2.0 Diffiniad

Argyfwng yw sefyllfa neu ddigwyddiad lle mae rhywbeth yn digwydd gyda rhybudd neu heb rhybudd, gan achosi neu gan fygwth achosi marwolaeth neu anaf neu ddifrod i eiddo neu'r amgylchedd. Mae angen cymryd camau ar fyrder yn achos argyfyngau i sicrhau nad yw'r sefyllfa yn gwaethygu.

Mathau o argyfyngau mawr

Gall argyfyngau neu ddigwyddiadau mawr o fewn ffiniau'r Cyngor ddisgyn o fewn un neu ragor o'r categorïau isod:

- Tywydd garw / llifogydd;
- Adeiladau mawr yn dymchwel;
- Tân neu ffrwydriad mawr;
- Bygythiadau i iechyd y cyhoedd;
- Digwyddiadau sy'n cynnwys gweithwyr y Cyngor neu bobl y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt;
- Rhyfel / terfysgaeth;

- Gweithgareddau anhrefn cyhoeddus / troseddol mawr.

Mae argyfwng yn sefyllfa lle mae angen ymateb ar unwaith a lle nad oes modd ymdrin â'r sefyllfa honno dan weithdrefnau gweithredu arferol. Mae enghreifftiau o sefyllfa argyfwng yn cynnwys:

- Colli cyfleusterau allweddol yn ddisymwth mewn annedd;
- Cau annedd ar unwaith a symud trigolion;
- Clefyd trosglwyddadwy yn torri allan yn sydyn ac yn eang.

3.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974: mae dyletswydd gyfreithiol ar reolwyr i nodi a rheoli argyfyngau posib ac argyfyngau gwirioneddol.

Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 2002 fel ai diwygiedig: yn unol â Rheoliad 8, bydd cyflogwyr yn sefydlu, ac yn gweithredu lle mae angen, drefniadau priodol os bydd perygl difrifol a brys i bobl yn y lle gwaith.

Dywed Rheoliad 9, "Every employer shall ensure that any necessary contacts with external services are arranged, particularly as regards first-aid, emergency medical care and rescue work."

4.0 Camau Ataliol yn y Lle Gwaith

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldeb corfforaethol am ddarparu, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, leoedd gweithio sy'n ddiogel ac yn ddi-risg. Bydd y trefniadau angenrheidiol wedi'u gwneud i ddiogelu gweithwyr a phobl eraill os bydd argyfwng yn digwydd.

Trefniadau Argyfwng ar gyfer Rheoli Digwyddiad Mawr

Er mwyn bod yn barod ar gyfer argyfwng, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cynllunio ar gyfer digwyddiadau y mae modd eu rhagweld yn rhesymol ac yn paratoi cynllun ysgrifenedig yn amlinellu gweithdrefnau y bydd raid eu dilyn yn y fath amgylchiadau. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu trafod gyda'r gwasanaethau argyfwng cyn iddynt gael eu cwblhau'n derfynol. Bydd uchel dîm rheoli Cyngor Sir Ynys Môn, mewn ymgynghoriad gyda gweithwyr a'u cynrychiolwyr, yn cynnal asesiad risg i nodi digwyddiadau mawr y mae modd eu rhagweld ac y byddai'n rhaid cael trefniadau argyfwng ar eu cyfer. Bydd y tîm yn sefydlu gweithdrefnau y bydd raid i weithwyr eu dilyn os bydd argyfwng yn digwydd gan gynnwys :-

- Canu'r larwm;
- Diangfeydd;
- Mannau ymgynnull a "llochesi";
- Galw'r gwasanaethau argyfwng;
- Sicrhau bod pobl anabl yn gadael yr adeilad.

Byddant yn penodi pobl i fod yn gyfrifol am drefniadau penodol yn achos argyfwng (yn ogystal â dirprwyo ar gyfer y rheini a restrir isod yn achos gwyliau neu salwch), gan gynnwys:-

- Rheolydd ar gyfer y digwyddiad;
- Rheolydd ar gyfer y prif safle;
- Gweithwyr sy'n gyfrifol am gau offer i lawr a sicrhau bod offer yn ddiogel cyn gadael yr ardal;
- Wardeiniaid tân a marsialiaid tân;
- Pobl sy'n gyfrifol am gyflenwadau pŵer a goleuadau mewn argyfwng;
- Pobl sy'n gyfrifol am symud offer i ac o safle'r digwyddiad;
- Swyddogion cymorth cyntaf;
- Darparu fersiwn ysgrifenedig o'r trefniadau i'r holl staff, gan gynnwys manylion am eu cyfrifoldebau.
- Sicrhau bod cynlluniau yn rhoi sylw i weithio gyda'r nos a gweithio mewn shifftiau, gweithio dros benwythnosau ac ar adegau pan fo adeiladau wedi cau ar gyfer gwyliau.
- Sicrhau bod rhestr ddiweddar o'r holl staff allweddol a bod y rhestr honno ar gael yn rhwydd.
- Labelu'n glir yr holl eitemau pwysig fel falfiau cau, ynyswyr trydanol, pwyntiau ac offer tân.
- Cynnal ymarferion a rhoi prawf ar offer argyfwng yn rheolaidd yn ogystal ag archwilio diangfeydd.
- Sicrhau bod diangfeydd ar gyfer y gwasanaethau argyfwng a'r holl ddiangfeydd eraill yn glir bob amser.
- Cynorthwyo'r gwasanaethau argyfwng trwy farcio'r adeilad yn glir a gwneud cynllun syml o'r adeilad (e.e. dangos lleoliad sylweddau peryglus).

- Ailasesu'r cynllun argyfwng yn rheolaidd ac yn dilyn newid o ran offer a gweithwyr, a diweddarau'r cynllun neu ei ddiwygio fel y cyfyd yr angen.

Systemau Gweithio Diogel

Unwaith y bydd cynllun argyfwng wedi'i sefydlu, mae'n hanfodol bod yr holl weithwyr (yn arbennig y rheini a chanddynt gyfrifoldebau arbennig), yn cymryd y camau priodol a amlinellwyd os bydd digwyddiad mawr.

Dylai prif reolydd y safle ar gyfer y Cyngor wneud yr isod:-

- Sicrhau bod y gwasanaethau argyfwng a'r staff allweddol wedi'u galw a bod y cynllun argyfwng ar waith.
- Rheoli'r gwaith o gau i lawr a gwagio unrhyw ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio, mewn ymgynghoriad gyda rheolydd y digwyddiad a staff allweddol eraill, a rheoli symudiadau traffig o gwmpas yr adeilad.
- Sicrhau bod cyfrif wedi'i wneud o bob aelod o staff; galw cofrestr i weld pwy sy'n bresennol.
- Adolygu ac asesu datblygiadau yn barhaus i geisio rhagweld sut bydd pethau'n datblygu, gan gynnwys yr effaith ar ardaloedd y tu allan i'r Cyngor.
- Cydgysylltu gyda'r gwasanaethau argyfwng, tra'n cadw cofnod o'r digwyddiad argyfwng.

Dylai rheolydd y digwyddiad sicrhau bod yr isod yn cael ei wneud:-

- Rheoli trefniadau yn safle'r digwyddiad h.y. achub ac ymladd tân, hyd nes y bydd y frigâd dân yn cyrraedd;
- Sicrhau bod gweithwyr yn gadael yr adeilad ac yn ymgynnull yn y manau priodol;
- Sefydlu trefniadau cyfathrebu gyda'r ganolfan rheoli argyfwng;
- Cynghori ar roi gwybod i'r gwasanaethau argyfwng;
- Briffio prif reolydd y safle;

Dylai gweithwyr (heb gyfrifoldebau arbennig) :-

- Beidio ceisio diffodd y tân na chymryd unrhyw gamau eraill nad ydynt wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer;
- Adael yr adeilad cyn gynted ag y mae'r larwm yn canu;
- Cynorthwyo unrhyw weithwyr anabl i adael yr ardal;

- Diffodd unrhyw offer a allai achosi risg;
- Mynd i'r pwyntiau ymgynnull.

Cadw Cofnodiadau

Rhaid i weithwyr gadw cofnodiadau boddhaol a bydd raid i'r fath gofnodiadau fod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg resymol gan yr awdurdodau gorfodi perthnasol. Bydd raid cadw cofnodiadau o'r isod.

- Y trefniadau i'w dilyn yn achos argyfwng;
- Y bobl gymwys sy'n gyfrifol am weithredu'r trefniadau;
- Manylion am unrhyw drefniadau argyfwng ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall a ddarperir;
- Cynnal larymau argyfwng ac offer arall a ddefnyddir mewn argyfwng.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar estyniad 01248 752820

1.0